

Safonau i sefydlu proffiliau ansawdd yn arholiadau ALTE

LLUNIO PROFION

- 1 Gallwch ddisgrifio pwrpas yr arholiad a chyd-destun ei ddefnyddio, a hefyd y boblogaeth y mae'r arholiad yn addas ar ei chyfer.
- 2 Mae'r arholiad yn seiliedig ar luniad theoretig, e.e. ar fodel o gymhwysedd cyfathrebol.
- 3 Rydych yn darparu meini prawf i ddedol a hyfforddi llunwyr, beirniaid arbenigol ac ymgynghorwyr wrth ddatblygu profion a'u llunio.
- 4 Mae arholiadau cyfochrog yn gymharus ar draws gweinyddiaethau gwahanol, o safbwynt cynnwys, sefydlogrwydd, cysondeb a throthwyon graddau.
- 5 Os ydych yn honni bod yr arholiad yn gysylltiedig â system gyfeirio allanol, (e.e. Fframwaith Cyffredin Ewrop), yna gallwch ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiad â'r system honno.

GWEINYDDU A LOGISTEG

- 6 Caiff yr holl ganolfannau eu dethol i weinyddu eich arholiad gan ddilyn gweithdrefnau clir, tryloyw a sefydledig; ac mae ganddynt fynediad i reoliadau am sut i wneud hyn.
- 7 Caiff papurau arholiad eu dosbarthu mewn cyflwr ardderchog a thrwy gludiant diogel i ganolfannau awdurdodedig; mae eich system arholiadau'n darparu ffordd ddiogel o drin a thrafod pob dogfen arholiadau, ac mae modd gwarantu cyfrinachedd holl weithdrefnau'r system.
- 8 Mae gan y system gweinyddu arholiadau drefniadau cefnogi priodol (e.e. llinell ffôn, gwasanaeth ar y we ac ati).
9. Rydych yn amddiffyn diogelwch a chyfrinachedd canlyniadau a thystysgrifau, a data'n ymwneud â nhw, yn unol â deddfwriaeth gyfredol am amddiffyn data, a rhoddir gwybod i ymgeiswyr am eu hawliau i gael mynediad i'r data hyn.
- 10 Mae eich system arholiadau'n darparu cefnogaeth i ymgeiswyr ag anghenion arbennig.

MARCIO A GRADDIO

- 11 Mae'r marcio'n ddigon cywir a dibynadwy at ddiben yr arholiad ac yn briodol i'r math hwn o arholiad.
- 12 Gallwch gofnodi sut mae amcangyfrif dibynadwyedd y marcio, a sut mae data am berfformiad marcwyr y perfformiadau ysgrifennu a siarad yn cael eu casglu a'u dadansoddi.

DADANSODDI'R PROFION

- 13 Rydych yn casglu data ac yn eu dadanosddi ar sail sampl ddigonol a chynrychioliadol o ymgeiswyr a gallwch fod yn hyderus fod yr hyn a gyflawnir ganddynt yn ganlyniad i'r sgiliau a asesir yn yr arholiad, heb ddylanwad ffactorau fel iaith gyntaf, gwlad wreiddiol, rhywedd, oed a chefnidir ethnig.
- 14 Cesglir data fesul eitem a data fesul tasg (e.e. i gyfrifo hygyrchedd, gwahaniaethu, dibynadwyedd a chyfeiliornadau safonol yr arholiad) o sampl ddigonol o ymgeiswyr a'u dadansoddi.

CYFATHREBU Â RHANDDEILIAID

15 Mae system gweinyddu'r arholiad yn cyflwyno canlyniadau'r arholiad i ymgeiswyr ac i ganolfannau arholi (e.e. ysgolion) yn brydlon ac yn glir.

16 Rydych yn darparu gwybodaeth i randdeiliaid am gyd-destun, pwrpas a defnydd priodol o'r arholiad; hefyd am ei gynnwys, ac am ddibynadwyedd cyffredinol canlyniadau'r arholiadau.

17. Rydych yn darparu gwybodaeth addas i randdeiliaid i'w helpu i ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio'n briodol.

©ALTE CODE OF PRACTICE WORKING GROUP